# Cofnodion Cyfarfod y Cyd-bwyllgor Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Abertawe

**O bell drwy Microsoft Teams**

**Dydd Iau, 8 Ebrill 2021 am 3.00 pm**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd A S Lewis (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

Mark Brace, Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu
Mark Brier, Heddlu De Cymru
Amanda Carr, Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Abertawe
Jan Curtice, Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru
Martyn Evans, Cyfoeth Naturiol Cymru
Sian Harrop-Griffiths, Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe
Adam Hill, Cyngor Abertawe
Roger Thomas, Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru
Nuria Zolle, Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe (Aelod Annibynnol)

**Hefyd yn bresennol:**
Leanne Ahern, Cyngor Abertawe
Mydrian Harris, Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru
Steve King, Cyngor Abertawe
Allison Lowe, Cyngor Abertawe
Martin Nicholls, Cyngor Abertawe
Paul Thomas, Cyngor Abertawe

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Deanne Martin, Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi
Trudi Meyrick, Heddlu De Cymru
Joanna Sartin, Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi
Rob Stewart, Cyngor Abertawe
Mark Wade, Grŵp Iechyd a Thai

## 29 Datgeliadau o Fuddiannau Personol a Rhagfarnol.

Ni wnaethpwyd unrhyw ddatganiadau.

## 30 Cofnodion.

**Cytunwyd** y dylid cymeradwyo a llofnodi cofnodion Cyd-bwyllgor Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Abertawe a gynhaliwyd ar 11 Chwefror 2021 fel cofnod cywir.

## 31 Y Diweddaraf ar Gamau Gweithredu o'r Cyfarfod Blaenorol.

Rhoddodd Adam Hill, Cyngor Abertawe, yr wybodaeth ddiweddaraf am y camau gweithredu sy'n deillio o'r cyfarfod blaenorol.

Er nad oedd y camau wedi'u cwblhau, roedd pethau wedi symud ymlaen a byddai'n diweddaru ymhellach fel rhan o Gofnod rhif 37, "Diweddariad/Llinell Amser yr Asesiad Lles Lleol (Rhanbarthol)".

**Cytunwyd** y dylid nodi'r diweddariad.

## 32 Cwestiynau Gan y Cyhoedd.

Ni chafwyd unrhyw gwestiynau gan y cyhoedd.

## 33 Agenda Werdd/Newid yn yr Hinsawdd.

Rhoddodd Martin Nicholls, Cyfarwyddwr Lleoedd Cyngor Abertawe, gyflwyniad ar yr Agenda Werdd/Newid yn yr Hinsawdd o'r enw "Abertawe Ddi-garbon Net".

Amlinellodd:

- Y cerrig milltir o ran yr hinsawdd hyd yma;
- Y daith hyd yn hyn (Cyngor Abertawe Di-garbon Net erbyn 2030);
- Yr amcanion;
- Siarter Gweithredu ar y Newid yn yr Hinsawdd Abertawe a sut yr oedd yn cysylltu â deddfwriaeth a pholisïau perthnasol eraill;
- Camau gweithredu allweddol ar gyfer Cyngor Abertawe Di-garbon Net;
- Siarter Cyngor Abertawe ar Weithredu ar y Newid yn yr Hinsawdd;
- Addewid ar gyfer Abertawe Ddi-garbon Net erbyn 2050;
- Ymgysylltu;
- Y camau cyntaf;

Daeth â’r cyflwyniad i ben drwy ofyn:
- A oedd lle posib i ddull cydweithredol a arweinir gan y BGC?
- A oedd y BGC wedi ymrwymo i egwyddorion tebyg?
- A oedd unrhyw feysydd penodol y byddai'r BGC yn gweld gwerth mewn gweithio gyda'i gilydd?

Trafodwyd y materion canlynol:

Effaith tanau glaswellt a difrod i goedwigaeth;
Caffael cerbydau trydan ar y cyd;
Teithio cynaliadwy (gan gynnwys teithio i'r gwaith);
Mwy o bobl yn beicio yn ystod y cyfnod clo;
Defnyddio ystadau a'r posibilrwydd o rannu swyddfeydd gyda phartneriaid yn fwy effeithiol (canolfannau cymunedol);

Dywedodd y Cyfarwyddwr Lleoedd y byddai'r cyngor yn hapus i rannu dysgu a'u profiadau er mwyn osgoi i bartneriaid wneud yr un camgymeriadau. Gofynnodd i bartneriaid:

1) Ymuno â'r Siarter Newid yn yr Hinsawdd;
2) Ymrwymo i'w cynllun gweithredu sefydliadol unigol eu hunain.

**Cam Gweithredu:**

1) Bydd partneriaid yn darparu manylion cyswllt cynrychiolydd ym mhob sefydliad i Leanne Ahern/Martin Nicholls er mwyn i'r trafodaethau cychwynnol ddechrau;
2) Martin Nicholls, Cyngor Abertawe, i ddarparu'r wybodaeth ddiweddaraf am feysydd blaenoriaeth ac adborth ar y ffordd ymlaen mewn Cyd-bwyllgor Gwasanaethau Cyhoeddus yn y dyfodol.

**34 Llinellau Sirol, Camddefnyddio Sylweddau, Ymddygiad Gwrthgymdeithasol - Partneriaeth Abertawe Mwy Diogel, Y Stryd Fawr.**

Rhoddodd Paul Thomas, Cyngor Abertawe, yr wybodaeth ddiweddaraf am Linellau Sirol, Camddefnyddio Sylweddau, Ymddygiad Gwrthgymdeithasol – Partneriaeth Abertawe Mwy Diogel, Y Stryd Fawr fel a ganlyn:

- Cytunwyd ar ganiatâd cynllunio ac roedd contractwyr ar y safle yn adnewyddu safleoedd gwag ar ben uchaf y Stryd Fawr;
- Roedd gwaith ymgysylltu â'r gymuned wedi parhau o ran y bwriad i ddefnyddio'r 3 uned fusnes wag;
- Llinellau Sirol – er bod nifer o linellau sirol yn gweithredu yn Abertawe, roedd yr holl bobl ifanc dan sylw yn cael eu trin fel dioddefwyr. Roedd nifer o warantau cyffuriau wedi'u cynnal ar ben uchaf y Stryd Fawr/Matthew Street. Roedd dulliau stopio a chwilio a chasglu gwybodaeth wedi parhau. Gosodwyd posteri yn Matthew Street a'r Stryd Fawr yn nodi bod gwaith cudd yr Heddlu yn parhau. Roedd hwn yn amlinellu'r cydweithio rhagorol a oedd yn parhau rhwng Heddlu De Cymru, yr Adran Dai, yr Uned Cefnogi Cymdogaethau (NSU) a cheidwad y Stryd Fawr wrth gyfeirio at faterion a risgiau yn yr ardal ac o'i chwmpas. Roedd wedi arwain at nodi gwendidau sylweddol.
- Camddefnyddio sylweddau – roedd gwaith allgymorth yn y Stryd Fawr wedi parhau yn ystod y pandemig. Mae'r prosiect Cymorth, Lles, Eiriolaeth, Galluogi (SWAN) a arweinir gan Gymorth i Fenywod yn ymddangos ar y Stryd Fawr bedair noson yr wythnos yn gweithio ar y fan. Y gobaith oedd y byddai eiddo gwag ar ben uchaf y stryd fawr yn cael ei ddefnyddio fel cyfleuster amgen, gan arwain at amgylchedd mwy croesawgar. Gellid gweld rhwng 10-20 o weithwyr rhyw y noson. Roedd cyfleuster cyfnewid nodwyddau a nyrs iechyd rhywiol hefyd ar gael ar y fan a chynhaliwyd profion feirws a gludir yn y gwaed unwaith y mis. Roedd chwe gweithiwr rhyw wedi cymryd rhan ym mhroses y Gwasanaeth Mynediad Cyflym at Bresgripsiynau (RAPS) a gynhaliwyd gan Dyfodol. Roedd hon yn enghraifft wych o ddull integredig o weithio ar raddfa fach er bod angen ystyried darparu gwasanaethau'n ehangach. Gellid gwella'r cyngor ar ymgysylltu/leihau niwed mewn fferyllfeydd. Gwaith parhaus gyda'r tîm trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a rhywiol (VAWDASV) a Chynhadledd Amlasiantaeth Asesu Risg (MARAC) gweithwyr rhyw mewn perthynas â chyngor ar iechyd rhywiol a cham-drin domestig ynghyd â gwasanaethau cymorth ychwanegol. Amcan yr Heddlu; chwilio dadansoddi; ymateb; asesu (OSARA)mae cynllun gweithredu

datrys problemau asesu bellach yn golygu bod yr holl bartneriaid yn gallu cyfrannu at broses cynllun gweithredu OSARA ar gyfer y Stryd Fawr.

- Roedd ymgynghoriad Gorchymyn Diogelu Mannau Agored Cyhoeddus (GDMAC) bellach wedi cau, ond roedd cyllid wedi'i sicrhau o'r blaen i wella goleuadau ac edrychiad a naws gyffredinol pen uchaf y Stryd Fawr, celfi stryd a mannau cyhoeddus yr ardal, waeth beth fo canlyniad y GDMAC.

Dywedodd Adam Hill y byddai'r BGC yn parhau i dderbyn diweddariadau rheolaidd gan y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol drwy Paul Thomas a'i dîm. Yn ogystal, byddai'r Dull Integredig o fynd i'r afael â Chamddefnyddio Sylweddau ar gyfer y rhanbarth yn cysylltu â'r gwaith sy'n cael ei wneud ar hyn o bryd.

**Cam gweithredu:** cofnodi'r wybodaeth ddiweddaraf.

**35 Ymgyrch Dawns Glaw 2021. (Cyflwyniad)**

Rhoddodd Mydrian Harries, Gwasanaethau Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru gyflwyniad ar Ymgyrch Dawns Glaw 2021 a oedd yn dasglu amlasiantaethol a sefydlwyd yn 2016 yn dilyn cryn dipyn o danau glaswellt yn 2015.

Amlinellodd:

- Tanau bwriadol yng Nghymru – Tueddiadau Hirdymor;
- Ffigurau ar gyfer nifer y tanau glaswellt blynyddol;
- Cipolwg o'r uchod......;
- Beth mae'r data yn ei ddweud wrthym;
- Beth yw Ymgyrch Dawns Glaw?;
- Beth mae Ymgyrch Dawns Glaw yn ei wneud?;
- Sut y gall y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus gynorthwyo?;

Trafododd y partneriaid feysydd problemus, gan gynnwys Mynydd Cilfái, y tybiwyd mai hon oedd y goedwig drefol fwyaf yng Nghymru ac awgrymodd gysylltu â Paul Thomas i sicrhau y gallai unrhyw faterion diogelwch cymunedol gael eu hyrwyddo a'u datrys ar y cyd gan bartneriaid. Y gobaith oedd y byddai Cyfoeth Naturiol Cymru yn gallu parhau i ddarparu'r arian grant, ond byddai hyn yn dibynnu ar ddigon o adnoddau cyllidebol.

Diolchodd y Cadeirydd a'r partneriaid i Mydrian Harries am y cyflwyniad llawn gwybodaeth.

**Cytunwyd** y dylid nodi'r cyflwyniad.

**36 Adborth o Gyfarfod y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus gyda'r Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol a Chymeradwyo Ymateb Ysgrifenedig.**

Dywedodd y Cadeirydd ei bod wedi bod yn bresennol mewn cyfarfod gyda'r Gweinidog, ynghyd ag Adam Hill a Roger Thomas. Un o'r negeseuon allweddol a amlygwyd yn y cyfarfod oedd y byddai'r BGC yn parhau ac y byddai uno gwirfoddol yn cael ei groesawu. Fodd bynnag, roedd yn amlwg y byddai Awdurdodau Lleol unigol yn dymuno cynnal eu hunigoliaeth mewn unrhyw uno.

Gallai cyfuno fod yn ganlyniad cadarnhaol er mwyn lleihau nifer y cyfarfodydd a chanolbwyntio ymdrechion er mwyn ychwanegu gwerth. Awgrymwyd bod pynciau fel Diogelwch Cymunedol a Newid yn yr Hinsawdd yn rhannu cyffredinrwydd ar gyfer BGC unedig Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot. Fodd bynnag, roedd yn amlwg y byddai angen i unrhyw Asesiad Lles ganolbwyntio ar faterion lleol.

Roedd ymateb wedi'i ddrafftio i'r Gweinidog, ond cytunwyd y dylid cynnal trafodaethau pellach yn y cyfarfod nesaf.

**Cam Gweithredu:** Cynnal trafodaethau pellach yng nghyfarfod nesaf BGC ar y Cyd Abertawe.

## 37 Diweddariad/Llinell Amser Yr Asesiad Lles Lleol (Rhanbarthol).

Cyflwynodd Steve King, Cyngor Abertawe, adroddiad i nodi datblygiadau diweddar wrth baratoi ar gyfer yr Asesiad Lles Lleol nesaf yn 2022.

Dywedodd fod pethau wedi datblygu ychydig ers y cyfarfod diwethaf. Roedd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Castell-nedd Port Talbot wedi ysgrifennu at Gadeirydd BGC Abertawe i awgrymu eu bod yn gweithio ar ddull cyffredin o gynnal Asesiadau Lles Lleol gyda chyfarfod y Bwrdd Cydlynu wedi'i drefnu ar gyfer 16 Ebrill 2021.

Yn ogystal, derbyniwyd adroddiadau Llywodraeth Cymru a Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol ac roeddent wedi'u hatodi yn Atodiad C.

Gan fod y dimensiwn rhanbarthol yn dal i ddod o hyd i'w ffordd, cynigiwyd y dylid sefydlu grŵp asesu golygyddol cysgodol i ddechrau edrych ar wahanol dasgau, ond dylid nodi y byddai hon yn broses gyfnewidiol. Amlinellwyd amserlen ddrafft ym mharagraff 2.7 o'r adroddiad.

Trafododd partneriaid y mater yn fanwl iawn a chytunwyd y byddai grŵp asesu golygyddol cysgodol lleol yn dechrau er mwyn casglu'r data perthnasol ac y gallai gweithgorau/grwpiau golygyddol lleol ddod at ei gilydd yn ddiweddarach er mwyn cyd-gynhyrchu i fodloni gofynion y Ddeddf.

**Cytunwyd:**

1) y dylai'r Cyd-bwyllgor nodi'r adroddiad.
2) Bod y Pwyllgor yn nodi'r canllawiau sy'n dod i'r amlwg gan Lywodraeth Cymru a Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol.
3) Yn amodol ar ddatblygiadau ar lefel ranbarthol, gan gynnwys y Bwrdd Cyd-gysylltu rhanbarthol arfaethedig, sefydlir Grŵp Asesu Golygyddol Cysgodol Abertawe i ddatblygu'r Asesiad Lles Lleol i ddechrau.

## 38 Grant Cymorth Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Llywodraeth Cymru.

Er gwybodaeth - heb ei drafod.

## 39 Cyllid Grant Cyfoeth Naturiol Cymru.

Cyfeiriodd Adam Hill, Cyngor Abertawe, at Grant Cyfoeth Naturiol Cymru. Dywedodd fod angen gwybodaeth derfynol am gyfran o'r £25,000 erbyn yr wythnos nesaf. Byddai ceisiadau llwyddiannus yn cael eu hadrodd maes o law.

## 40 Rhaglen Waith ar Gyfer y Dyfodol:

Adroddodd y Cadeirydd ar Raglen Waith y dyfodol.

**Cytunwyd** y dylid gohirio'r "Sesiwn ddatblygu Aelodau Bwrdd" ac eitemau agenda "Dyletswydd Economaidd-Gymdeithasol" nes cyfarfod yn y dyfodol.

Daeth y cyfarfod I ben am 5.01 pm

**Cadeirydd**